

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT

Dydd Llun, 25 Tachwedd 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D. Price (Cadeirydd)

## Y Cynghorwyr:

L.R. Bowen, K.V. Broom, B.W. Jones, D. Jones, G.R. Jones, M.J.A. Lewis, D.T. Williams, S.M. Allen (yn lle I. Davies) and W.T. Evans (yn lle E. Schiavone)

M. Jones – Rhiant Lywodraethwr

V. Kenny – Cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig Rufeinig

## Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorydd G. Davies, Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg & Phlant

## Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant

S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg

R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol

S. Nolan, Cyfrifydd Grwp

A. Rees, Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant

A. Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiad

L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 10.00 yb - 12.20 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr E. Schiavone, I. Davies, J. Jenkins, B. Thomas, E. Thomas, Mr J. Davies, Mrs G Cornock-Evans a'r Parch D. Richards.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwipiaid y pleidiau.

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod(ion)	Math o Fuddiant
D. Price	4	Cyflogir ei wraig gan PCYDDS
L. Bowen	6	Mae perthynas iddo yn gweithio yn Ysgol Llangynnwr
S. Allen	6	Aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Llys Hywel

### 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dyweddod y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law.

### 4. RECRIWTIO A CHADW STAFF

**[NODER: Roedd y Cynghorydd D. Price wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]**

Yn ystod y gwaith o gynllunio blaenraglen waith 2019/20, nododd y Pwyllgor Recriwtio a Chadw Staff fel maes diddordeb a gofynnodd am adroddiad manwl.

Mynegodd yr Aelodau'r materion/cwestiynau canlynol wrth ystyried yr adroddiad –

Cyfeiriodd yr Aelodau at brif ganfyddiadau'r adroddiad gan Gyngor y Gweithlu Addysg ar ran Llywodraeth Cymru; y cyfeirir ato ar dudalen 17 yr adroddiad, a oedd yn amlinellu profiadau ymarferwyr addysg cofrestredig yng Nghymru. Nododd y canfyddiadau fod nifer sylweddol o athrawon ysgol yn bwriadu gadael y proffesiwn o fewn y tair blynedd nesaf a nodwyd bod y llwyth gwaith sylweddol yn faes a oedd yn peri anfodlonrwydd i nifer o ymatebwyr. Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant at dudalen 23 yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r gwaith a wnaed i roi arweiniad i athrawon ar ffyrdd y gellid lleihau pwysau gwaith. Roedd y canllawiau hefyd yn ceisio egluro'r hyn a ddisgwylir gan athrawon mewn perthynas â marcio a chynllunio, a darparu cyngor cyson wedi'i gymeradwyo gan Estyn.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch a oedd athrawon a oedd wedi cwblhau'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) yn gallu dod o hyd i swyddi perthnasol ac a dderbyniwyd ceisiadau digonol am swyddi Prifathrawon, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant er y pwysau parhaus ar athrawon roedd nifer digonol o benaethiaid yn cymhwyso. Derbyniwyd nad oedd pob athro a oedd wedi ennill y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yn bwriadu dilyn gyrfa fel Prifathro. Roedd yn cydnabod rhai o'r heriau mewn perthynas â nodi unigolion â'r priodoleddau angenrheidiol a nododd fod dull mwy strategol o fynd i'r afael â hyn ar y gweill.

Nododd yr Aelodau fod nifer sylweddol o swyddi gwag dros dro yn cael eu hysbysebu yn Sir Gaerfyrddin a gofynnwyd ai dyma oedd y sefyllfa yn genedlaethol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod hyn yn debygol o fod yn adlewyrchiad o sefyllfa ariannu'r rhan fwyaf o ysgolion.

Wrth egluro mater a godwyd ynghylch recriwtio digon o staff dwyieithog dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod rhywfaint o waith rhanbarthol yn cael ei wneud gan ERW yn ogystal â chynllun cenedlaethol i annog athrawon dwyieithog mewn ysgolion cynradd i ailhyfforddi fel athrawon Cymraeg uwchradd. Nododd ymhellach fod Sir Gaerfyrddin mewn sefyllfa gref o ran recriwtio staff dwyieithog.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 5. GWASANAETH CYMORTH IEUENCTID SIR GAERFYRDDIN

Cafodd yr Aelodau drosolwg o'r adroddiad ar Wasanaethau Cymorth Ieuenctid Sir Gaerfyrddin gan Brif Reolwr y Gwasanaethau Cymorth i Ieuenctid.

Mynegodd yr Aelodau'r materion/cwestiynau canlynol wrth ystyried yr adroddiad –

Wrth nodi'r cynnydd sylweddol yn y Grant Cymorth gan Lywodraeth Cymru yn 2019/20 gofynnodd yr Aelodau beth oedd bwriad y cyllid ac a fyddai'n parhau ar y lefel honno yn y blynyddoedd dilynol. Dywedodd Prif Reolwr y Gwasanaethau Cymorth i Ieuenctid fod y cynnydd mewn cyllid yn cynnwys dyraniadau i wella iechyd a llesiant emosiynol ac atal digartrefedd. Nododd y swyddog fod y gwasanaeth wedi cyflogi wyth aelod o staff ychwanegol gan gynnwys Cydgysylltydd Digartrefedd. Nid oedd unrhyw awgrym hyd yma ynghylch lefel y cyllid dilynol.

Mewn ymateb i gwestiwn ar ddatblygu'r gweithlu, dywedodd Prif Reolwr y Gwasanaethau Cymorth i Ieuenctid fod gan y gwasanaeth ei gynllun hyfforddi ei hun sy'n cydymffurfio â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant hefyd yn cynnal cwrs gwaith ieuenctid pwrpasol y mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ei gefnogi. Mae'n ofynnol i Weithwyr Ieuenctid gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ac mae hyn wedi cynyddu cydnabyddiaeth am waith ieuenctid yn broffesiynol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd a gofynnwyd a oedd rhaniad amlwg rhwng ardaloedd gwledig/trefol, ac a oedd yr un lefel o wasanaeth yn cael ei ddarparu ledled y sir. Dywedodd Prif Reolwr y Gwasanaethau Cymorth i Ieuenctid fod gwasanaeth cyson yn cael ei ddarparu ledled y Sir a bod yr un gwasanaeth yn cael ei dderbyn waeth beth fo'r lleoliad. Nodwyd hefyd bod y gwasanaeth yn aml yn gweithio gyda theulu'r person ifanc a gafodd ei atgyfeirio ac yn cefnogi'r pontio o'r gwasanaethau i blant i wasanaethau oedolion, lle byddai cefnogaeth o ran symud ymlaen yn cael ei nodi.

Nodwyd nad oedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y ddarpariaeth grant i'r 3<sup>ydd</sup> sector. Dywedodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu drwy e-bost i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 6. PENDERFYNIAD - CYNNIG I NEWID NATUR Y DDARPARIAETH YN YSGOL Y DDWYLAN, YSGOL GRIFFITH JONES, YSGOL LLANGYNNWR AC YSGOL LLYS HYWEL

**[Noder: Roedd y Cynghorydd L. Bowen ac S. Allen wedi datgan diddordeb yn gynharach yn yr eitem hon ac wedi gadael y Siambr drwy gydol yr eitem.]**

Bu'r Aelodau yn ystyried y sylwadau a gafwyd i'r Hysbysiadau Statudol unigol o ran newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol y Ddwyfan, Ysgol Griffith Jones, Ysgol Llangynnwr ac Ysgol Llys Hywel. Gan fodloni nad oedd unrhyw gynigion cysylltiedig eraill; roedd yr aelodau'n cydnabod yr ymgynghorwyd ar y cynigion statudol a'u bod wedi'u cyhoeddi yn unol â'r Côt Trefniadaeth Ysgolion a'u bod yn

cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Bu'r Aelodau'n ystyried y dogfennau ymgynghori a'r adroddiadau ymgynghori, y gwrthwynebiadau a'r ymatebion i'r hysbysiadau yn yr adroddiad gwrthwynebu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo i'r Bwrdd Gweithredol i weithredu'r cynnig fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Statudol i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol y Ddwylan, Ysgol Griffith Jones, Ysgol Llangynnwr ac Ysgol Llys Hywel.**

## **7. PENDERFYNIAD - CYNNIG I NEWID NATUR Y DDARPARIAETH YN YSGOL RHYS PRICHARD**

Bu'r Aelodau'n ystyried cyflwyniadau a gafwyd i'r Hysbysiad Statudol mewn perthynas â newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Rhys Pritchard. Gan fodloni nad oedd unrhyw gynigion cysylltiedig eraill; roedd yr Aelodau'n cydnabod yr ymgynghorwyd ar y cynnig statudol a'i fod wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Côt Trefniadaeth Ysgolion a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Bu'r Aelodau'n ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori, y gwrthwynebiadau a'r ymatebion i'r hysbysiadau yn yr adroddiad gwrthwynebu.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL i argymhell bod y Bwrdd Gweithredol yn gweithredu'r cynnig fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Statudol mewn perthynas â newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Rhys Pritchard.**

## **8. ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT - DIWEDDARIAD CYLLIDEB**

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2019 (cofnod 7.3) gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad ar y gorwariant a ragwelwyd ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant drosolwg o'r sefyllfa bresennol, a'r mesurau a gyflwynwyd eisoes ac sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu, i oresgyn y pwysau presennol.

Mynegodd yr Aelodau'r materion/cwestiynau canlynol wrth ystyried yr adroddiad –

Cyfeiriodd yr Aelodau at y llythyr a anfonwyd i'r 30 o ysgolion sy'n wynebu diffyg yn y gyllideb a gofynnwyd am arwydd o'r math o arbedion effeithlonrwydd sy'n debygol o gael eu nodi. Dywedodd Pennaeth y Cwricwlwm a Llesiant ei fod ef a Phennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant wedi cyfarfod â'r Pennaeth a Chadeirydd Corff Llywodraethu pob ysgol ac roedd yn cydnabod y cafwyd rhai sylwadau negyddol mewn perthynas â'r llythyr a anfonwyd, fodd bynnag, roedd y neges yn y llythyr yn glir ac roedd nifer o sgysiau cadarnhaol wedi deillio o ganlyniad i hyn. Gofynnwyd i ysgolion a nodwyd i nodi arbedion effeithlonrwydd a chyflwyno strategaeth gyllideb am dair blynedd; y disgwyl oedd y byddai cyllidebau'n cynnwys gostyngiadau mewn costau staffio, gwariant rheolaidd a rhywfaint o ostyngiad o ran yr hyn a gynigir yn y cwricwlwm.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod dros ddeng mlynedd o galedi a gostyngiadau cyllidebol gwirioneddol yn debygol iawn o fod wedi effeithio ar y sefyllfa ariannol bresennol, ond gofynnwyd a oedd unrhyw strategaethau eraill wedi'u nodi ar gyfer gwella. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant ymhlith rhai o'r meysydd a nodwyd oedd cyflogi staff cymorth a Chynorthwyyr Addysgu yn

ganolog, adolygu telerau cyflogaeth hanesyddol a datblygu hyfforddiant mwy cadarn ar gyfer llywodraethwyr ysgol.

Nodwyd bod yr adroddiad, ar dudalen 137, yn cyfeirio at '*opsiynau mewn perthynas â rhesymoli*', gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y math o resymoli sy'n cael ei ystyried. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, yn ogystal ag adolygiad o'r dalgylchoedd presennol, y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynaliadwyedd patrwm presennol ysgolion cynradd a ffederasiynau ar draws y sir. Byddai adolygiad o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg hefyd yn cael ei gynnal.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## **9. MATER WEDI EI GYFEIRIO GAN Y PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau i wrthdroi ei benderfyniad i dderbyn adroddiadau Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf drwy e-bost, y tu allan i broses y pwyllgor. Cytunodd yr Aelodau nad oeddent yn dymuno gwrthdroi eu penderfyniad ac, wrth wneud y penderfyniad hwnnw, nodwyd y canlynol –

- bod y penderfyniad i ddsbarthu'r adroddiad a nodwyd y tu allan i broses y pwyllgor yn cyd-fynd â'r hyfforddiant a ddarparwyd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus ym mis Mawrth 2019 a gynghorodd yr Aelodau i ystyried amseroldeb adroddiadau a gyflwynwyd i graffu arnynt.

- bod y Pwyllgor wedi adolygu prif straen y Gyllideb Refeniw drwy gyfrwng y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, Adroddiadau a Sesiynau Briffio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r cyfeiriad.**

## **10. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

Bu i'r aelodau adolygu'r Flaenraglen Waith ac ystyried adroddiadau a ddsbarthwyd y tu allan i broses y pwyllgor ers y cyfarfod diwethaf ar 15 Hydref 2019.

Nodwyd, oherwydd oedi wrth baratoi Cynllun Cyllideb 2020/21, ei bod yn debygol y byddai'r cyfarfod ym mis Rhagfyr yn cael ei ohirio tan fis Ionawr. Bydd yr eitemau sydd wedi'u nodi ar y Flaenraglen Waith ar gyfer cyfarfod mis Ionawr yn cael eu symud i'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 19 Chwefror 2020.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol.**

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**